

Chwirydd: Tair astudiaeth, Dwy Chwaer, Un Gobaith



Cyflwyniad

Sampl neu Wledd

Weithiau, wrth gerdded o gwmpas archfarchnad, fe welwch chi gynrychiolydd cwmni bwyd penodol yn cynnig samplau am ddim.

Tybed ydych chi'n rhoi cynnig ar y rhain?

Mae sampl yn ateb gofyn penodol iawn. Nid eich llenwi yw'r pwrpas, ond yn hytrach greu diddordeb lle nad oedd diddordeb yn bodoli ynghynt efallai.

Mae llawer o gysiau ac adnoddau da yn cyflwyno Iesu. Y rhai mwyaf adnabyddus yw'r Cwrs Alffa ac Ymchwilio i'r Ffydd Gristnogol, ond mae yna lawer o rai eraill ar gael hefyd

'Gwleddoedd' yw'r cyrsiau hyn. Maent yn ateb angen person penodol, y math o berson sydd am wybod mwy am Iesu ac sydd ag amser i dreulio ychydig oriau bob wythnos gydag eraill am wyth, deg neu hyd yn oed 12 wythnos ar y tro.

Mae ein cwrs ni yn fwy o 'sampl'. Mae'r cwrs wedi'i greu ar gyfer merched, ac yn benodol, merched nad ydynt erioed wedi meddwl pam ddylent ystyried Iesu cyn heddiw.

Ac mae'r cwrs yn fyr. Yn fyr iawn!

Dim ond tair astudiaeth sydd yma ac fe gredwn ni y gallant bara am gyn lleied â 25 munud, sydd yn eu gwneud yn ddelfrydol ar gyfer mamau yn ystod y cyfnod y mae eu plant yn yr Ysgol Sul, neu ar gyfer merched wedi ymdeol fel rhan o fore coffi, neu yn ymwneud â chymydog dros y lôn.

Nid pwrpas y cwrs yw edrych ar y cwbl sydd i'w ddweud am Iesu, ond yn hytrach, mae'n gweithredu fel 'sampl' gan annog y merched i feddwl am Iesu a'i arwyddocâd yn y byd heddiw.

Amcan craidd pob sesiwn

Mae'r cwrs yn seiliedig ar hanesion dwy chwaer, Mair a Martha, hanesion a gaiff eu cofnodi yn Luc 10 ac yna Ioan 11. Mae'r sesiwn yn cynnwys darlenniad Beiblaidd a thrafodaeth gychwynnol.

ASTUDIAETH UN: Mae bywydau merched yn brysur a wastad wedi bod felly. Oherwydd hyn, gall llawer o ferched feddwl nad oes amser ganddynt ar gyfer ysbrydolrwydd. Mae'r pwyslais yn Sesiwn Un ar atgoffa'n hunain 'y gall yr hyn sydd yn fater o frys fod yn elyn i'r hyn sy'n bwysig'

ASTUDIAETH DAU: Gall merched orfod dioddef rhagfarn hyd yn oed heddiw. Mae Sesiwn Dau yn defnyddio dewrder Mair wrth iddi herio confensiwn ac eistedd gydag Iesu er mwyn dangos y parch oedd gan Iesu tuag at ferched a'i awydd i'w gweld hwy yn rhan o'i Deyrnas.

ASTUDIAETH TRI: Dydy adnabod Iesu ddim yn golygu bywyd perffaith yn rhydd rhag tristwch a dioddefaint. Mae Sesiwn Tri yn defnyddio ffydd Martha er mwyn dangos bod perthynas gydag Iesu yn gallu datblygu ar gyflymder gwahanol ac mai'r peth pwysig yw ein bod yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo.

Arwain Grŵp

Yn ddelfrydol, dylid cael 2 unigolyn yn rhannu'r gwaith o arwain y grŵp. Does dim angen gwaith paratoi mawr oherwydd natur y cwrs, ond mae'n hanfodol treulio amser yn darllen y nodiadau yn weddigar a cheisio rhagweld pa gwestiynau/materion a allai godi.

Am ragor o fanylion ynghylch arwain grwpiau bychain, gweler y cyflwyniad i Lyfr 1 yn y Ffeil Adnoddau Dorcas: 'Gwraig fel Dorcas'.

1. Sesiwn Un: Martha

Trafodaeth:

Ydych chi erioed wedi cyfarfod â pherson enwog?

- Pwy oedd y person hwnnw/honno?
- Beth ddigwyddodd? A wnaeth y person dan sylw godi llaw arnoch chi, cynnig llofnod neu aros am sgwrs?

Yn ei oes ei hun, roedd Iesu yn berson enwog. Roedd yn adnabyddus, ac yn cael ei ddilyn gan gefnogwyr a beirniaid fel ei gilydd. Yn aml, cafodd ei wahodd i rannu pryddau gyda phobl enwog.

Esboniwch eich bod am ddarllen hanesyn a gafodd ei ysgrifennu gan Luc, un o ddilynwyr cyntaf Iesu. Yn yr hanes gan Luc estynnwyd gwahoddiad i Iesu a thua 12 o'i ddilynwyr i gartref gwraig o'r enw Martha.

DARLLENWCH: Luc 10:38-42

Trafodaeth:

Beth wyddai Martha am Iesu wrth iddi ymddwyn fel hyn?

Dyma gyfle i ymchwilio i'r hyn y mae'r unigolyn neu aelodau'r grŵp yn ei wybod am Iesu. Gwrandewch am unrhyw beth sydd yn gynhyrfus neu'n drawiadol.

Does dim angen cywiro camgymeriadau neu bethau na chafodd eu cofior yn iawn, roedd clywed achlust yn un o'r pethau a daniodd ddiddordeb Martha o bosib.

Wedi dweud hynny, byddai'n ddefnyddiol nodi:

Roedd Iesu yn enwog am iacháu a gwneud gwyrthiau eraill; am ei garedigrwydd a'i dosturi; a'i esboniad chwyldroadol o gwestiynau mawr bywyd - Duw, Dynolryw, Dyheadau Dynol, Drygioni, ayyb.

Pwysleiswch y pwyntiau hyn gan mai'r nod fan hyn yw datgelu neu atgoffa unigolion bod Iesu yn unigryw a gwahanol.

Trafodaeth:

Pe bai person enwog yn dod i'ch tŷ chi, pa bethau y byddai'n rhaid eu gwneud?

- Tacluso? Paratoi bwyd da? Gwneud yn siŵr fod y tŷ yn gynnes ac yn glyd?

Nodwch fod Martha wedi gwneud y paratodau hyn a'u gwneud yn dda!

Wedi'r bwyd, mae pawb yn troi i wrando ar Iesu'n siarad gan ei fod yn athro sydd yn eu dysgu.

Ond mae gan Martha bentwr o lestri i'w golchi, gweddill y fwyd i'w glirio a'r holl swyddi eraill o'r ganrif gyntaf na allwn ni feddwl amdanynt!

Pwysleiswch ffolineb rhoi sylw i faterion brys ond anwybyddu'r materion pwysig.

Byddai hynny fel cychwyn hwfro a'r Rolling Stones yn canu yn y cefndir, neu lenwi'r peiriant golchi llestri pan fo Dacy Bussell yn dawnsio yn yr ystafell fyw!

Mae Cristnogion yn credu bod Iesu yn real ac yn bwysig yn hanes pawb ohonom. Ond mae'n hawdd gohirio'r broses o feddwl amdano.

Peidiwch ag osgoi darganfod mwy amdano oherwydd eich bod yn rhy brysur gyda'r hyn sydd yn ymddangos yn faterion brys ond eto'n ddibwys yn y pen draw.

Un pwynt cyn gorffen:

Mae Martha yn cwyno wrth Iesu!

Yn ein gwlad ni, gallai hynny ymddangos ychydig yn ddigywilydd. Yng nghyfnod Iesu, roedd yn waradwyddus torri ar draws siaradwr er mwyn crybwyll anghydfod teuluol.

Ond mae Iesu'n ymateb.

Os ydych am ymchwilio i bwy yw Iesu, byddwch yn ymwybodol y gallwch ei herio a'i gwestiynu. Ond bydd yntau hefyd yn eich herio chi. Ac fe allai hynny newid eich bywyd yn llwyr

Anogwch y grŵp i ddarllen mwy o efengyl Luc yn ystod yr wythnos. Mae'n bosib y bydd gofyn ichi ddarparu Beiblau.

2. Sesiwn Dau: Mair

Trafodaeth:

Ydych chi'n meddwl bod merched yn wynebu rhagfarn heddiw?

(Mae'n bosib bod cychwyn fel hyn braidd yn drwm, felly dewis arall yw defnyddio'r stori isod neu un debyg o'ch dewis chi)

Eglureb o'r rhaglen Downton Abbey:

Mae un o'r morynion yn dechrau caru gyda dyn yn aros yn y tŷ. Mae'r garwriaeth yn dod i'r golwg ac mae'n rhaid iddo adael, ond mae hi wedyn yn darganfod ei bod yn feichiog. Mae'r dyn yn parhau i fyw bywyd sengl, ond fe'i condemnir hi am y modd y gwnaeth hi ymddwyn, ac mae'n byw mewn tloedi. Dywed un cymeriad. "Dyna sut mae dynion ond fe ddylai hi fod wedi gwybod yn well".

- Megis Ethel yn Downton Abbey, mae'n bosib bod merched wedi dod ar draws safonau dwbl a'i chael hi'n anodd cael triniaeth deg a chyfartal, yn y gweithle er enghraifft.
- A fyddai'r grŵp yn cytuno bod profiadau merched wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf? (Er enghraifft, efallai bod rhai ohonynt wedi bod mewn coleg neu brifysgol - ai darlithwyr gwrywaidd oedd yn eu dysgu gan amlaf?) .
- A oes unrhyw aelod yn y grŵp wedi wynebu rhagfarn eu hunain?

DARLLENWCH: Luc 10:38-42

Gan gadw'r drafodaeth flaenorol mewn cof, canolbwyntiwch ar brofiad Mair yn eistedd wrth draed Iesu yn gwrando arno'n dysgu. Byddai hyn yn beth cwbl newydd yng nghyfnod Iesu. Dim ond hawliau yn y cartref oedd gan ferched a'r rheini'n hawliau cyfyng iawn. Roedd gan y dyn awdurdod dros ei wraig a'i ferched, - trefnai eu gweithgareddau a'u perthynas â phobl. Câi merched eu pasio o fod dan reolaeth eu tadau fod dan reolaeth eu gwŷyr heb fawr o lais ganddynt yn y mater o gwbl. Caent eu gwerthu am waddol, a hynny fel arfer wedi iddynt ddod i oed.

Felly, mae'n debygol bod teimladau cryfion ymhlith y dynion yno - byddent yn flin ac o bosib wedi'u cythruddo gan bresenoldeb Mair.

Trafodaeth:

O gofio y byddai Mair yn gwybod y gwaradwydd y byddai'n ei dynnu i'w phen wrth eistedd i lawr ac ymuno â'r dynion oedd yn gwrando ar Iesu, beth, ym marn y grŵp, oedd yn ei chymell hi?

- Dyma gyfle i drafod y modd y mae Iesu yn wahanol.
- Os yw un o'r grŵp wedi darllen rhywbeth o'r efengyl yn yr wythnos flaenorol, efallai fod ganddynt rywbeth i'w ddweud am yr hyn a'u tarodd hwy yn eu darllen.
- Rhag ofn mai distawrwydd fydd yr ymateb, paratowch esiampl o ddameg, iachâd neu weithred o garedigrwydd. Er enghraifft, ymdriniaeth Iesu o'r anghenus yn Marc 5 neu ei syniadau radical am faddeuant yn Luc 6. Mae'n debyg y byddai Mair wedi clywed am y digwyddiadau hyn a'r dysgu hwn ac y byddai hi eisiau gwybod mwy.
- Efallai y bydd cyfle yma hefyd i ofyn beth fyddai'r grŵp yn ei ofyn pe bai rhai ohonynt yn sefyllfa Mair. 'Pe baech yn gallu gofyn cwestiwn i Dduw, beth fyddai'r cwestiwn hwnnw?'

Un pwynt cyn gorffen:

Roedd y dynion o amgylch Mair, hyd yn oed y rheiny oedd yn cefnogi Iesu, yn gynnyrch eu hoes ac yn bobl bechadurus a thoredig. Byddent wedi bod yn hynod anfodlon wrth feddwl am wraig yn eistedd ac yn disgwyl cael ei dysgu.

Yn yr un modd heddiw weithiau gall dynion sy'n eu galw eu hunain yn Gristnogion ddangos diffyg parch neu ddiffyg goddefgarwch tuag at ferched, ac efallai bod aelodau'r grŵp wedi profi hyn.

Nid mynnu y dylem eu dilyn hwy y mae'r efengyl, ond yn hytrach ein bod yn dilyn Iesu. Ac mae ymdriniaeth Iesu o ferched yn gwbl wahanol hyd yn oed i ymdriniaeth ei ddilynwyr.

Mae'n canmol Mair am ddewis eistedd wrth ei draed yn gwrando ac yn dysgu.

Ydym ni yn barod i dreulio amser yn gwrando ar yr hyn sydd gan Iesu i'w ddweud wrthym ni heddiw? Mae'n rhoi gwerth ar bob un ohonom, heb ddangos ffafriaeth na rhagfarn.

3. Sesiwn Tri: Stori Annisgwyl

Trafodaeth:

Yn y nofel *Great Expectations*, mae cymwynaswr yn gwednewid bywyd Pip sy'n blentyn amddifad. Mae'n cael ei ddilladu a'i ddanfôn i Lundain ble mae'n byw fel gŵr bonheddig. Dydy enw'r cymwynaswr hwn ddim yn cael ei ddatgelu yng nghorff y llyfr, ond mae Pip a'r darlennydd yn argyhoeddedig eu bod yn gwybod pwy yw. Fodd bynnag, ar ddiwedd y nofel datgelir enw'r cymwynaswr ac mewn tro rhyfeddol, mae byd Pip yn cael ei droi ben i waered gan garedigrwydd y person olaf y byddai'n disgwyl hynny ganddo.

Mae'r eglureb hon yn enghraifft o rywun annisgwyl yn achub y sefyllfa. Os gallwch gael hyd i'ch stori eich hun gall fod yn llawer mwy effeithiol. Serch hynny, ceisiwch osgoi datgelu pwynt plot neu ddifetha ffilm neu lyfr i rywun sydd yn bwriadu ei gweld neu ei ddarllen drostynt eu hunain!

Cyn darllen y stori am farwolaeth ac atgyfodiad Lasarus, rhowch gyflwyniad byr fel a ganlyn:

Wedi cynnwrf swper gyda pherson enwog a digwyddiad yn dwyn gwaradwydd, mae'r stori yn troi'n dywyll yn y sesiwn olaf hon. Roedd gan Mair a Martha frawd, ond roedd wedi mynd yn sâl ac wedi marw. Danfonodd y chwiorydd am Iesu. Wrth i'r stori gael ei darllen, cadwch mewn cof mai Martha oedd y weithwraig a Mair oedd y feddylwraig. Gwrandewch i weld pa chwaer sydd yn dod allan i groesawu Iesu gyntaf.

DARLLENWCH: Ioan 11:17- 37

Gofynnwch i'r grŵp a wnaethant sylwi pwy a gyfarchodd Iesu gyntaf. AM SYNDOD! Martha yw'r un sydd yn dod allan ac yn siarad ag Iesu!

Cwestiwn:

Beth yw'r un peth y mae pawb yn ei ofyn yn y bennod hon?
(Gweler adnod 37)

Mae Martha yn ein synnu gyda'i datganiad yn adnod 21:

'Taset ti wedi bod yma, fyddai fy mrawd ddim wedi marw. Ond er hynny, dwi'n dal i gredu fod Duw yn rhoi i ti beth bynnag wyt ti'n ei ofyn amdano.'

Efallai y byddem wedi disgwyl mai cwestiwn cyntaf Martha i'r Iesu fyddai:
'Pam na chyrhaeddaist ti ynghynt?'

Yn lle hynny, mae ei datganiad yn datgelu 2 beth y mae hi'n ei gredu am Iesu:

1. Mae gennyt bŵer dros farwolaeth - 'fyddai fy mrawd ddim wedi marw'.
2. Mae'r dyfodol, er ei fod yn ansicr ar hyn o bryd, yn dy ddwylo di – '[Bydd] Duw yn rhoi i ti beth bynnag wyt ti'n ei ofyn ganddo'.

Trafodaeth:

Mae gan Martha ffydd y gallai Iesu fod wedi iacháu Lasarus, ond dydy hi ddim yn siŵr beth y bydd yn ei wneud yn awr.

Beth yw barn y grŵp am hyn?

Ydyn nhw'n gallu uniaethu â ffydd Martha - yn credu rhai pethau am Iesu ond yn ansicr am bethau eraill?

Byddai Cristnogion yn cytuno nad yw ffydd yn Iesu yn arwain yn syth at gynnydd mewn arian, gwell iechyd neu iacháu ein perthnasau sy'n sâl.

Felly, beth yw ei ystyr?

Bydd cyfle yma i siarad am Dduw'r Creawdwr, pechod yn y byd, Iesu'r Gwaredwr, cariad, llawenydd a heddwch yn y byd hwn a gobaith tragwyddol yn y byd i ddod. Efallai y carech weld pa bwyntiau a grybwyllir gan y grŵp ac yna ymateb i hynny.

Un pwynt cyn gorffen:

Nid cyflymder wrth ddod i ffydd yn Iesu sy'n bwysig.

Mae'r camgymeriadau a wnawn ar hyd y daith (megis Martha yn poeni am y gwaith tŷ yn Sesiwn Un) yn anorfod.

Trafodaeth:

A yw'r grŵp wedi ystyried dysgu mwy am Iesu?

Oes pethau sydd yn eu hatal rhag gwneud hynny?

Anogwch hwy i weld bod hanes Mair a Martha'n dangos bod merched cyffredin a phrysur yn cael eu croesawu gan Iesu i fod yn rhan o'i Deyrnas.

Anogwch hwy i weld bod Duw yn gweld pob person fel unigolyn ac am iddynt roi eu doniau unigryw (megis lletygarwch Martha neu feddwl ymholgar Mair) ar waith er mwyn ei Deyrnas.

